OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 Rhif 247 (Cy. 61)

# YMADAEL Â'R UNDEB EWROPEAIDD DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU

## Rheoliadau Sŵn Amgylcheddol (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019

| | |
|---|---|
| *Gofynion sifftio wedi eu bodloni - - - -* | *7 Ionawr 2019* |
| *Gwnaed - - - -* | *11 Chwefror 2019* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymrut - -* | *13 Chwefror 2019* |
| *Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1* | |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 1(1) o Atodlen 2 i, Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018(**1**).

Mae gofynion paragraff 4(2) o Atodlen 7 i'r Ddeddf honno (sy'n ymwneud â gweithdrefn graffu briodol Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer y Rheoliadau hyn) wedi eu bodloni.

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Sŵn Amgylcheddol (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 a deuant i rym ar y diwrnod ymadael.

### Diwygio Rheoliadau Sŵn Amgylcheddol (Cymru) 2006

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Sŵn Amgylcheddol (Cymru) 2006(**2**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2—

(a) ym mharagraff (2), yn y diffiniad o "Cyfarwyddeb", yn lle "ac fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb y Comisiwn (EU) 2015/996;" rhodder ", fel yr oedd yn cael effaith yn union cyn y diwrnod ymadael"; a

(b) ar ôl paragraff (2) mewnosoder—

(**1**) 2018 p. 16.
(**2**) O.S. 2006/2629 (Cy. 225), a ddiwygiwyd gan O.S. 2009/47 (Cy. 15).

"(3) At ddibenion y Rheoliadau hyn, mae'r Gyfarwyddeb i'w ddarllen fel pe bai unrhyw gyfeiriad at un neu ragor o Aelod-wladwriaethau yn gyfeiriad at Weinidogion Cymru.".

(3) Yn rheoliad 4, ar ôl paragraff (6) mewnosoder—

"(7) At ddibenion paragraff (2)(a), mae cyfeiriad at Atodiad I i'r Gyfarwyddeb i'w ddarllen fel pe bai, ym mharagraff 1, yn y pedwerydd mewnoliad sydd yn cychwyn "the day is 12 hours", y geiriau o "The Member States" hyd at y diwedd wedi eu hepgor.".

(4) Yn lle rheoliad 15(1)(a) rhodder—

"(a) amcanu i atal a lleihau sŵn amgylcheddol pan fo'n angenrheidiol ac yn benodol pan fo lefelau bod o fewn clyw sŵn yn gallu achosi effeithiau niweidiol ar iechyd dynol;

(aa) amcanu i ddiogelu ansawdd sŵn amgylcheddol pan fo'n dda;".

(5) Yn rheoliad 22—

(a) ym mharagraff (2)(b), yn lle "y Gyfarwyddeb" rhodder "gyfraith berthnasol yr UE a ddargedwir(**3**)"; a

(b) ym mharagraff (3), yn lle "Erthygl 4 o'r Gyfarwyddeb" rhodder "cyfraith berthnasol yr UE a ddargedwir;".

(6) Yn rheoliad 26(4)(b)—

(a) ym mharagraff (i) hepgorer "neu"; a

(b) hepgorer paragraff (ii).

(7) Yn Atodlen 1—

(a) ym mharagraff 1—

(i) ailrifer y testun presennol yn is-baragraff (1); a

(ii) ar ôl yr is-baragraff (1) newydd mewnosoder—

"(2) At ddibenion is-baragraff (1), mae'r cyfeiriad at baragraffau 1.5, 1.6 a 2.6 o Atodiad VI i'r Gyfarwyddeb i'w ddarllen yn unol â'r addasiadau a ganlyn—

(a) ym mharagraff 1.5, fel pe bai'r cyfeiriad yn y paragraff hwnnw at "major roads", "major railways" a "major airports" fel y'u diffinnir yn Erthygl 3 o'r Gyfarwyddeb yn gyfeiriad at "major road" ("prif ffordd"), "major railway" ("prif reilffordd") a "major airport" ("prif faes awyr") fel y'u diffinnir yn rheoliad 2(2) o'r Rheoliadau hyn; a

(b) ym mharagraffau 1.6 a 2.6, fel pe bai'r geiriau o "These data" hyd at y diwedd wedi eu hepgor.";

(b) ym mharagraff 2, ar ôl is-baragraff (2) mewnosoder—

"(3) At ddibenion is-baragraff (1)(a), mae cyfeiriad at Atodiad IV i'r Gyfarwyddeb i'w ddarllen fel pe bai'r canlynol wedi eu hepgor—

(a) ym mharagraff 4, y mewnoliad cyntaf;

(b) ym mharagraff 5, y geiriau o "concerning" hyd at "Commission"; ac

(c) paragraff 9".

(**3**) Mae cyfraith berthnasol yr UE a ddargedwir yn cynnwys Rheoliadau Sŵn Amgylcheddol (Lloegr) 2006 (O.S. 2006/2629), Rheoliadau Sŵn Amgylcheddol (yr Alban) 2006 (O.S.A. 2006/465) a Rheoliadau Sŵn Amgylcheddol (Gogledd Iwerddon) 2006 (Rh.S. 2006, Rhif 387).

*Lesley Griffiths*
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

11 Chwefror 2019

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 1(1) o Atodlen 2 i, Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p. 16) er mwyn ymdrin ag unrhyw fethiant yng nghyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol a diffygion eraill sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Sŵn Amgylcheddol (Cymru) 2006.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal asesiadau effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.